# Cynllun Atal Hunanladdiad ac Hunan-niweidio Cyngor Gwynedd – (Drafft Gorffennaf 2026)

Mae'r cynllun gweithredu isod yn amlygu'r gwaith bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni yn erbyn amcanion y Strategaeth Atal Hunanladdiad ac Hunan-niweidio Cymru 2025-35. Nod y Strategaeth hwn yw:

- lleihau cyfraddau hunanladdiad ac ymgais i gyflawni hunanladdiad
- gwella canlyniadau i bobl sy'n cael cymorth ar gyfer hunan-niweidio a synio am hunanladdiad
- gwella canlyniadau i bobl y mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn effeithio arnynt

Mae ein cynllun gweithredu wedi'i strwythuro yn unol a chwe amcan y Strategaeth, sef: **Gwrando a Dysgu, Atal, Grymuso, Cefnogi, Galluogi, ac Ymateb.** Fel partneriaid allweddol eraill yng Nghymru, rydym yn cael ein arwain gan y camau gweithredu o fewn y Cynllun Cyflawni 3 mlynedd (2025-28).

| AMCAN Y STRATEGAETH | GWEITHRED | ADRANNAU ARWEINIOL | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **1) Gwrando a Dysgu:** *prosesau symlach ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli data, tystiolaeth, a thystiolaeth o brofiad bywyd; a seilwaith cadarn i sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddatblygu polisïau, cymorth a gwasanaethau.* | **1.1** Cyngor Gwynedd i fod yn aelod o'r Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niwed Gogledd Cymru ac i ddarparu mewnbwn i unrhyw is-grwpiau perthnasol. | Diogelwch Cymunedol / Iechyd Meddwl / Diogelu | Chwarterol ac fel yr angen |
| | **1.2** Cyngor Gwynedd i fod yn aelod o'r Grŵp Adolygu Hunanladdiad Gogledd Cymru (pan gaiff ei sefydlu) – er mwyn ystyried gwersi o RTSSS, DHRs, ac adolygiadau eraill | Diogelwch Cymunedol / Adrannau Plant ac Oedolion | TBC |
| | **1.3** Adnabod arweinydd / hyrwyddwr corfforaethol dros hunanladdiad a hunan-niweidio yn yr awdurdod lleol. | Gwasanaeth Corfforaethol / Aelodau Etholedig | Cyn gynted a bydd modd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **1.4** Cynnal sesiwn briffio i'r Tim Arweinyddiaeth a/neu Aelodau Lleol ar y Strategaeth, y sefyllfa leol (ystadegau) a'r gwaith sydd ar y gweill | Diogelwch Cymunedol mewn cydweithrediad a'r Arweinydd Rhanbarthol | Cyn gynted a bydd modd |
| | **1.5** Monitro cynlluniau gweithredu yr Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs/SUSRs) yn ymwneud a hunanladdiad, a sicrhau fod y dysgu yn cael eu rannu yn eang. | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd & Môn / Grŵp Diogelu Oedolion | Yn barhaus |
| ***2)*** **Atal:** *ymateb amlasiantaethol i'r canlynol:*<br>• *Mynd i'r afael â'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad;*<br>• *Cyfyngu ar fynediad neu amlygiad i wybodaeth niweidiol ar-lein ac yn y cyfryngau;*<br>• *Cyfyngu ar fynediad at ddulliau y gellir eu defnyddio i achosi niwed;*<br>• *Adnabod a rheoli lleoliadau sy'n peri pryder* | **2.1** Cyngor Gwynedd i gefnogi'r Protocol Atal Hunanladdiad Gogledd Cymru (Bwrdd Diogelu) | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau – mewn datblygiad ar hyn o bryd |
| | **2.2** Cyngor Gwynedd i ddarparu mewnbwn a hwyluso gwaith y grwpiau Lleoliadau o Bryder / Clwstwr a gweithgareddau atal eraill yng Ngwynedd | Diogelwch Cymunedol / Iechyd Meddwl / Diogelu ac Unrhyw adrannau perthnasol eraill | Fel yr angen |
| | **2.3** Ymgysylltu ag unrhyw waith rhanbarthol yng Ngogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar ffactorau risg a grwpiau / cymunedau blaenoriaeth (e.e. cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd) | Diogelwch Cymunedol / Iechyd Meddwl / Diogelu ac Unrhyw adrannau perthnasol eraill | Fel yr angen |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2.4** Hyrwyddo arfer da o ran adrodd yn gyfrifol am hunanladdiad a hunan-niweidio yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol lleol (e.e. dilyn Canllawiau Cyfryngau'r Samariaid); ac esgoli unrhyw adrodd niweidiol drwy Arweinydd Rhanbarthol y Gogledd-orllewin | Cyfrifoldeb ar bawb / Diogelwch Cymunedol / Tîm Cyfathrebu | Yn barhaus |
| **3) Grymuso:** *y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i adnabod y rhai sydd mewn angen, i gynnig cymorth caredig a thosturiol; ac i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau os oes angen.* | **3.1** Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gefnogaeth sydd ar gael – e.e. amserlen o bostiadau cyfryngau cymdeithasol | Diogelwch Cymunedol / Tîm Cyfathrebu | Yn barhaus |
| | **3.2** Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth / rhannu adnoddau gyda grwpiau cymunedol | Diogelwch Cymunedol / Tîm Cyfathrebu | Fel yr angen |
| **4) Cefnogi:** *Sicrhau mynediad at gymorth, ymyrraeth a thriniaeth amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan yr holl wasanaethau perthnasol, gan gynnwys gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal brys a gwasanaethau'r trydydd sector.* | **4.1** Cynllunio Diogelwch *(Safety Planning)* – hyfforddiant a gweithredu ar gyfer gwasanaethau a staff allweddol<br>• Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl<br>• Gofyn a Gweithredu<br>• I-Act<br>• Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Hunanladdiad | Dysgu a Datblygu / Gwasanaethau Cymdeithasol | TBC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ac Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma yng Nghymru<br>• Ac unrhyw hyfforddiant perthnasol eraill | | |
| | **4.2** Ymgorffori risg a diogelwch hunanladdiad a hunan-niweidio mewn mecanweithiau presennol (e.e. diogelu; MARAC; cynllunio trawsnewid) | Diogelwch Cymunedol / Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyn gynted a bydd modd |
| | **4.3** Cyngor Gwynedd i weithredu'r Datganiad Ansawdd Hunan-niweidio (pan gaiff ei gyhoeddi gan Llywodraeth Cymru yn 2026). | I'w gadarnhau ar ôl i Llywodraeth Cymru gyhoeddi | Cyn gynted a bydd modd wedi iddo gael ei gyhoeddi |
| 5) **Galluogi:** *Mae gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n wynebu heriau sy'n cynyddu'r perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'u galluogi i adnabod pobl sydd mewn perygl, ac yn cydweithio ag asiantaethau partner i gynnig cymorth holistig a tosturiol* | **5.1** Adnabod grwpiau staff y dylid eu blaenoriaeth i dderbyn hyfforddiant hunanladdiad a hunan-niweidio, a'u cefnogi i gael mynediad ato | Dysgu a Datblygu | Cyn gynted a bydd modd |
| | **5.2** Ystyried gwneud yr E-Fodiwl Ymwybyddiaeth Hunanladdiad Cymru yn fandadol | Tîm Rheoli / Dysgu a Datblygu | I'w drafod cyn gynted a bydd modd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| *sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.* | **5.3** Datblygu adnoddau i'r mewnrwyd i gefnogi staff gyda sgyrsiau am hunanladdiad; a cefnogaeth ar ôl hunanladdiad (mae enghreifftiau ar gael fel man cychwyn) | Diogelwch Cymunedol i drafod ymhellach gyda'r Arweinydd Rhanbarthol i ddeall pa opsiynau sydd ar gael | I'w drafod cyn gynted a bydd modd |
| | **5.4** Datblygu a gweithredu fframwaith hyfforddi ar gyfer ysgolion – hunanladdiad a hunan-niweidio (enghreifftiau ar gael o ardaloedd eraill yng Nghymru). Rhannu adnoddau gydag ysgolion e.e. Sorts - Recognising and responding to self-harm in schools neu Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc \| LLYW.CYMRU | Diogelwch Cymunedol i drafod ymhellach gyda'r Arweinydd Rhanbarthol i ddeall pa opsiynau sydd ar gael/<br>Adran Addysg | I'w drafod cyn gynted a bydd modd |
| **6) Ymateb:** *Darparu ymatebion amserol i hunanladdiadau a bydd cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i bawb yr effeithir arnynt.* | **6.1** Hyrwyddo Enfys Alice / NALS | Diogelwch Cymunedol / Tîm Cyfathrebu | Yn barhaus |
| | **6.2** Datblygu Proses Ymateb Cyflym ar ôl hunanladdiad a amheuir (Mae yna esiamplau o Weithdrefn Safonol a Phrotocol Rhannu Gwybodaeth ar gael) | Diogelwch Cymunedol a Diogelu Oedolion i drafod gyda'r Arweinydd Rhanbarthol / Cydweithrediad gyda'r Heddlu/Diogelu BCU | I'w drafod cyn gynted a bydd modd |
| | **6.3** Datblygu a gweithredu proses ar gyfer cefnogi staff yr | Adnoddau Dynol / Iechyd a Diogelwch | Cyn gynted a bydd modd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithiwyd arnynt gan hunanladdiad defnyddiwr gwasanaeth neu gydweithiwr | | |
| | **6.4** Datblygu polisïau Cymorth Ar Ôl Hunanladdiad wedi'u teilwra mewn ysgolion e.e. Step by Step \| Samaritans | Adran Addysg | Cyn gynted a bydd modd |

DRAFFT